# JONES, WILLIAM COLLISTER (1772 - ?), argraffydd yng Nghaer

**Enw:** William Collister Jones
**Dyddiad geni:** 1772
**Dyddiad marw:** ?
**Rhiant:** Sarah Jones
**Rhiant:** William Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** argraffydd
**Maes gweithgaredd:** Argraffu a Chyhoeddi
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Bedyddiwyd 12 Gorffennaf 1772, mab William a Sarah Jones, Caer. Ceir ef a Thomas Crane yn argraffu llyfrau Cymraeg yng Nghaer o c. 1796 ymlaen. Yn 1798 dechreuasant gyhoeddi llyfrau crefyddol dros Thomas Charles, Bala, a Thomas Jones, Dinbych; cyn diwedd 1798, fodd bynnag, enw W. C. Jones yn unig a geir; e.e. T. Charles, *Hanes Fer o For-Daith y Llong Duff.* Bu'n argraffu *Trysorfa Ysbrydol* o 1799 hyd 1802. Prentis yn swyddfa Crane a Jones yng Nghaer oedd y Robert Saunderson a ddechreuodd argraffu dros Thomas Charles a Thomas Jones yn y Bala yn 1803; prentisiaid eraill oedd Thomas Gee a John Broster. Y mae'n debygol i W. C. Jones beidio ag argraffu llyfrau Cymraeg tua'r flwyddyn 1807.

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau


Morris Parry, 'Chester Welsh Printing' yn *Journal of the Architectural, Archaeological and Historic Society of Chester and North Wales*, 1913

Morris Parry, *Gwasg Gymraeg Caerlleon* (Caerlleon 1931)

Ifano Jones, *A history of printing and printers in Wales to 1810, and of successive and related printers to 1923* (Cardiff 1925)


## Gweithiau

Hugh Jones, *Hymnau newyddion: ynghyd ag ychydig benhillion ar yr amserau; a rhai gwersi o erfyniad am ddiogelwch i Frydain (Caerlleon 1797)*

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734581


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu